

Cofnodion cyfarfod rhif 77 Pwyllgor Cyngori Cymru a gynhaliwyd drwy 'Teams' ar 2 Mehefin 2020

Yn bresennol

Hywel Wiliam	Y Cadeirydd
Andrew Board	Aelod
Peter Trott	Aelod
Rem Noormohamed	Aelod (rhannol)
Robert Andrews	Aelod
Ruth McElroy	Aelod

Hefyd yn bresennol

David Jones	Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom
Aled Eirug	Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys
Rick Hill	Cadeirydd, Aelod o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau (yn absenoldeb Aelod Cymru)
Fiona Lennox	Cyfarwyddwr Gweithredol, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau
Eleanor Marks	Cyfarwyddwr Ofcom yng Nghymru
Elinor Williams	Pennaeth Materion Rheoleiddiol, Ofcom Cymru
Meleri Evans	Rheolwr Materion Rheoleiddiol, Ofcom Cymru
Emma McFadyen	Pennaeth Polisi Cyhoeddus (Gwledydd)
Liz Nash	Cynorthwydd Materion Rheoleiddiol, Ofcom Cymru

Cydweithwyr eraill yn Ofcom

Eitemau ar yr Agenda	Gweithredu
<p>Cyflwyniad</p> <p>1. Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod rhif 77 Pwyllgor Cyngori Cymru (PCC).</p>	
<p>Datgan Buddiannau Aelodau – ar lafar</p> <p>2. Dim</p>	
<p>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2020 a materion yn codi – Cofnodion PCC 76(3)</p> <p>3. Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2020 wedi cael eu dosbarthu i'r aelodau'n barod ac fe'u CYMERADWYWYD.</p> <p>Materion yn codi/Camau gweithredu heb eu cyflawni-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodyn cryno o ddigwyddiad y Ganolfan Sbectwm Genedlaethol i'w ddosbarthu. • Roedd y Cadeirydd a'r Aelod Bwrdd ar ran Cymru yn bresennol yng nghyfarfod WISP ym mis Ebrill. • Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am Archwiliad Cyfryngau y Sefydliad Materion Cymreig. Mae'r lansiad a drefnwyd ar gyfer diwedd Mehefin yn yr Uwchgynhadledd Cyfryngau wedi cael ei ohirio ond gwahoddir aelodau i 	PT

<p>ymgysylltu'n anffurfiol â'r Sefydliad. Mae drafft terfynol o'r adroddiad nawr ar gael a gwahoddwyd yr aelodau i roi adborth. Cytunodd y Cadeirydd a rhai Aelodau i greu gweithgor.</p> <ul style="list-style-type: none"> Trafododd yr aelodau yr ymateb a gafwyd gan Ofcom i lythyr y Pwyllgor o ran eu safbwyntiau ar restru'r Chwe Gwlad. Roeddent yn siomedig gyda'r ymateb niwtral a gawsant a gofynnwyd i Ofcom Cymru anfon y llythyr ymlaen at yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Nid oedd yr aelodau wedi derbyn y ddolen i'r ymchwil 'Peidiwch â'm Datgysylltu'. Cytunodd cydweithiwr o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau i'w hanfon ymlaen ar unwaith. Yn dilyn y drafodaeth ar yr Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn y cyfarfod diwethaf, cytunodd rhai aelodau ac Aelod o'r Bwrdd Cynnwys i lunio dogfen drafft yn amlinellu safbwyntiau a chynigion y Pwyllgor. Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom i fwrw ymlaen i gysylltu â Lee Waters AS ynghylch y posibilrwydd o lunio rhestr o wasanaethau deialu PSTN ar draws y sector cyhoeddus. Ymdrech barhaus i recriwtio Aelod ar ran Cymru o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau. Dywedwyd wrth yr aelodau bod rhywfaint o symud ar y gorwel o ran penodiadau ac mae cyhoeddiad ar y gweill. Mynegodd yr aelodau eu pryder ynghylch yr oedi a'r ffaith nad oedd cynllun arall ar gael. Cytunodd y Pwyllgor i ohirio mynegi eu pryderon yn ffurfiol am fis. 	<p>RMcE/HW EW</p> <p>FL</p> <p>HW/AE/AB</p> <p>DJ</p>
<p>Adroddiad y Cadeirydd – ar lafar</p> <p>4. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddiad llafar o'i weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Adborth o gyfarfod Hyb Defnyddwyr Cyfathrebiadau Cymru ar 16 Ebrill – cyfarfod defnyddiol iawn. Dywedodd fod Iaith Arwyddion Prydain wedi canmol y Senedd am ddefnyddio iaith arwyddion yn sesiynau briffio dyddiol y Prif Weinidog ar y Coronafeirws. Presenoldeb yng Nghyfarfod Rhwydwaith Cysylltedd Cymru a oedd yn ymwneud â radio DAB. Adborth o'r sgwrs gyda Môn FM yn dilyn y cyfarfod am ei bryderon ynghylch buddsoddiadau yn y dyfodol. Tynnodd sylw at weminar 'Lockdown and Beyond' RTS Cymru a fydd yn cael ei chynnal ar Zoom cyn bo hir gan uwch swyddogion gweithredol BBC Cymru Wales, ITV Cymru Wales ac S4C ar 15 Mehefin am 1500. HW i anfon y ddolen at yr Aelodau. Adroddodd ar gynlluniau i ddal i fyny â Chadeiryddion Pwyllgorau Cyngori eraill i drafod materion cyfredol. Ofcom Cymru i drefnu hyn. Tynnodd sylw'r Aelodau at erthygl a ysgrifennwyd gan Tim Hartley o'r enw 'Family Guy and Me' a allai fod o ddiddordeb i'r aelodau gan ei fod yn gwneud rhai pwyntiau diddorol am y BBC a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer trafodaeth ehangach y Pwyllgor ynghylch darlledu gwasanaeth cyhoeddus. HW i rannu'r ddolen. 	<p>HW</p> <p>LN</p> <p>HW</p>
<p>Y Diweddaraf: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom – ar lafar</p> <p>5. Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y pynciau diweddar a drafodwyd gan Fwrdd Ofcom yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Rheoleiddio niwed ar-lein a diogelwch telegyfathrebiadau (ar y cyd â'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol). Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a 	

<p>Chwaraeon yn dechrau siarad â'r gweinyddiaethau datganoledig am ei chynigion deddfwriaethol a ffurf rheoleiddio yn y dyfodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyriodd yr Aelod Bwrdd ar ran Cymru a'r Aelodau sut mae'r nifer sy'n defnyddio'r rhyngwrwyd wedi datblygu'n gyflymach oherwydd Covid-19, yn enwedig ymysg y boblogaeth hŷn. Mae hefyd wedi dod yn amlwg bod y bwlch rhwng cymunedau cyfoethocach a thlotach yn tyfu. Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at nifer o haenau o allgau digidol. Mae'r rhyngwrwyd wedi esblygu'n gyflym, a'r cyfan mae'r pandemig wedi'i wneud yw tynnu sylw at y ffaith bod angen sicrhau mynediad diogel i bawb. Mae'r nifer sy'n defnyddio'r rhyngwrwyd wedi cynyddu'n sylweddol hefyd, oherwydd bod plant yn dysgu gartref yn ystod y pandemig. Rydym yn dechrau gweld cymhlethdod allgau cymdeithasol ac anllythrennedd digidol. Cytunodd yr aelodau ei fod yn faes gwaith sydd angen sylw pellach a chadarnhaodd Cadeirydd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau fod hwn yn fater sy'n cael ei ystyried gan y Panel ar hyn o bryd a fydd yn codi'r posibilrwyd o adfer agenda llythrennedd yn y cyfryngau gydag Ofcom. 	
<p>Y Diweddaraf: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Cynnwys Ofcom</p> <p>6. Roedd papur diweddarar eisoes wedi dod i law a oedd yn tynnu sylw at faterion a oedd yn cael eu trafod gan y Bwrdd Cynnwys, er enghraifft y ffaith bod Tony Close yn gadael a bod Ali Marsden yn mynd i'w ddisodli fel Cyfarwyddwr Cynnwys, Safonau, Trwyddedu a Gorfodi; bod Kevin Bakhurst yn ymuno â Bwrdd Ofcom; a thrafodaethau ar gynnwys darlledu.</p> <p>7. Tynnodd sylw'r aelodau at nifer o faterion sy'n peri pryder a amlygwyd yn ei bapur.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae amserlen yr Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus wedi newid ac mae cynhadledd rithiol ar Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr wedi cael ei chynnig ar gyfer mis Tachwedd a bwriedir cyhoeddi dogfen ymgynghori erbyn diwedd y flwyddyn. • Yn ystod un o gyfarfodydd y Grŵp Llywio Niwed Ar-lein ar y cyd, nodwyd bod gan argyfwng Covid-19 nifer o oblygiadau penodol o ran niwed ar-lein ac mae'r Grŵp wrthi'n llunio achos busnes a'r model cyllido ar gyfer y drefn newydd. Roedd y pryderon yn amrywio o fwy o gysylltiad â deunydd niweidiol ar-lein i'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth gamarweiniol a chamwybodaeth – sy'n destun trafodaeth gyhoeddus a gwleidyddol gynyddol ar hyn o bryd. <p>8. Trafododd yr aelodau Gynllun Blynyddol y BBC gan gyfeirio at dwf BBC Sounds. Cyflwynodd un o'r Aelodau graff i'r cyfarfod a dywedodd fod modd priodoli'r twf ym mhoblogrwydd BBC Sounds i benderfyniad y BBC i ddileu dosbarthiad ffrydiau byw BBC Radio o TunelN, ei gyn-bartner syndiceiddio, yn 2019. Roedd y penderfyniad hwn wedi anniddigo rhai gwrandawyr ac mae'n codi trafodaeth ynghylch ymhle a sut dylid manteisio i'r eithaf ar gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Bydd rhai cynulleidfaoedd wedi symud o TunelN i BBC Sounds. Fodd bynnag, er bod BBC Sounds yn dangos twf cadarn ers dechrau'n sefydlog, nid yw'n glir bod y defnydd ar-lein net o Radio Wales, Radio Cymru a sianeli eraill yn fwy nag y byddai wedi bod fel arall pe na bai partneriaeth syndiceiddio TunelN wedi dod i ben.</p> <p>9. Trafododd yr aelodau gyhoeddiad diweddar Bauer a'i oblygiadau i Swansea Sound sydd wedi cael ei ailenwi'n Greatest Hits Radio Network De Cymru. Mewn ymateb i gwestiwn, pwysleisiodd cydweithwyr Ofcom Cymru mai mater i Bauer yw enw a brand yr orsaf. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn mynegi ei bryderon mewn llythyr. Byddai is-bwyllgor yn cael ei greu i drafod. Ofcom Cymru i gynghori ynghylch sut mae bwrw ymlaen.</p>	EW
<p>Adroddiad – Polisi Cyhoeddus</p>	

10. Roedd adroddiad diweddar wedi cael ei rannu'n barod ar ddatblygiadau allweddol Llywodraeth y DU a'r Senedd ers y cyfarfod diwethaf. Ers dechrau'r cyfnod clo, mae Ofcom wedi bod mewn cysylltiad agos â Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a llywodraethau eraill yn y DU ynghylch effaith Covid-19 ar y sector cyfathrebiadau. Dywedodd cydweithiwr yn Ofcom fod gan weithredwyr ddull tebyg ar y dechrau o ymateb i argyfwng Covid, ond erbyn hyn mae gwahaniaethau'n dechrau dod i'r fei ee rhai gweithredwyr yn datgysylltu cwsmeriaid am beidio â thalu ac yn codi cyfraddau premiwm ar gyfer ffonau ysbty. Mae gan Ofcom rôl allweddol yn y materion hyn.

11. Trafododd yr aelodau strategaethau'r llywodraethau gwahanol ar gyfer dod allan o'r cyfnod clo a sut byddant yn effeithio ar wahanol sectorau a phryd y gall pobl ddychwelyd i weithio mewn swyddfa.

12. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i wthio ei hagenda cysylltedd gigabit i ddod â band eang ffeibr i'r ardaloedd mwyaf anodd eu cyrraedd o'r DU ac mae Ofcom yn gweithio'n agos gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar waith yn ymwneud â niwed ar-lein.

13. Mae pryder wedi cael ei fynegi ynghylch yr wybodaeth gamarweiniol barhaus am 5G a'r coronafeirws a allai roi cyfrifoldebau newydd i Ofcom o ran diogelwch a chadernid rhwydweithiau.

14. Trafododd yr aelodau'r gronfa argyfwng radio cymunedol a chadarnhaodd cydweithiwr yn Ofcom fod tri chais cymwys wedi dod i law gan orsafoedd yng Nghymru a bod disgwyl cyhoeddiad yn nes ymlaen yn yr wythnos.

Adroddiad – Datblygiadau Diweddar yng Nghymru

15. Nododd yr aelodau gynnwys papur diweddar a rannwyd yn flaenorol. Tynnodd Cyfarwyddwr Cymru sylw at rai o'r uchafbwyntiau, gan gynnwys:

- Mae Cyfarwyddwr Cymru yn mynychu sesiynau briffio rheolaidd i randdeiliaid gydag uwch gydweithwyr, sy'n ddefnyddiol iawn i gyfrannu at syniadau ar draws y DU ar gam cynnar yn y broses. Mae Ofcom yn gweld gwerth mewn parhau â'r fforwm hwnnw i ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Diweddariad ar ddychwelyd i'r swyddfa. Mae hyn 99% yn gyflawn ac yn unol â'r canllawiau cadw pellter cymdeithasol rhagwelir y bydd uchafswm o 8 o bobl yn gallu gweithio o'r swyddfa ar yr un pryd.
- Mae Ofcom Cymru wedi dechrau trafod â Llywodraeth Cymru ynghylch cynhwysiant digidol a'r bwlch digidol. Bydd Cyngor ar Bopeth hefyd yn gweithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ddyledion defnyddwyr o ganlyniad i'r coronafeirws.

16. Roedd cwestiynau gan yr aelodau'n cynnwys pryder am ddiffyg cynnwys Cymraeg ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol Ofcom, a amlygwyd yn ystod cyfweiliad diweddar ar Radio Cymru. Mae pryder ar hyn o bryd ynghylch risg i enw da y cwmni ac mae Ofcom Cymru wedi cyflwyno papur i Fwrdd Rheoli Polisi Ofcom yn amlinellu'r risgiau posibl a'r angen i fwrw ymlaen â hyn. Gallai'r mater hwn arwain at oblygiadau o ran adnoddau i swyddfa Ofcom yng Nghymru.

Cyfryngau'r Genedl 2020

17. Roedd yr aelodau wedi cael adroddiad cynhwysfawr cyn y cyfarfod a dilynodd y tîm drwy roi cefndir byr i Adroddiad Cyfryngau'r Genedl eleni gan egluro bod Ofcom wedi dilyn dull gweithredu gwahanol eleni ond nad oedd wedi hepgor unrhyw fanylion. Bydd yr adroddiad yn cwmpasu'r un pethau ac yn cynnwys manylion y patrymau newydd o gael

<p>gafael ar newyddion yn ystod y pandemig presennol ar gyfer pob gwlad, gan sicrhau bod yr adroddiad yn adlewyrchu tirlun y cyfryngau newydd a'r newid yn y defnydd o gyfryngau o ganlyniad i Covid-19.</p> <p>18. Llongyfarchodd un o'r aelodau y tîm ar y data rhagorol a nodir yn yr adroddiad ac esboniodd sut bydd hyn yn helpu Ofcom i ddeall effaith y pandemig ar gwotâu cynhyrchu a'r gostyngiad difrifol mewn refeniw hysbysebu.</p> <p>19. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y tîm na fydd y penodau sy'n ymchwilio'n ddwfn yn gallu rhoi manylion ynghylch sut mae pob gwlad wedi cael ei heffeithio'n benodol. Fodd bynnag, dywedodd y tîm fod arolwg wedi cael ei gynnal ynghylch camwybodaeth am newyddion, ond nad oes modd dadansoddi'r data yn ddarllledwyr neu'n rhwydweithiau unigol. Dywedodd EW y byddai tîm Ofcom Cymru yn llunio ffigurau ynghylch y BBC, S4C ac ITV lle bo hynny'n bosibl, gan ystyried nifer yr aelwydydd y mae eu patrymau gwyllo yn gorgyffwrdd, yn bennaf ar y ffin ddwyreiniol. Bydd adroddiad Cymru yn cynnwys astudiaeth achos benodol ar y pwnc hwn.</p>	
<p>Cynllun Gwaith Diwygiedig 2020/21</p> <p>20. Ymunodd cydweithwyr â'r cyfarfod a rhoi diweddariad ar lafar. Diolchodd y tîm i gydweithwyr Ofcom Cymru am gynnal digwyddiad gwych i randdeiliaid ym mis Ionawr. Ers dechrau pandemig y coronafeirws ac er mwyn ystyried yr amgylchiadau eithriadol sydd wedi codi ers ein hymgyngoriad, mae'r amserlen wedi cael ei haddasu ac mae'r gwaith cyhoeddi nawr wedi cael ei drefnu ar gyfer mis Medi, gyda diweddariadau chwarterol ar gynnydd yn cael eu darparu.</p>	
<p>Y Diweddaraf gan y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau</p> <p>21. Roedd adroddiad diweddarau wedi cael ei roi i'r aelodau yn barod. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Effaith Covid-19 ar ddefnyddwyr, yn benodol o ran yr hyn sy'n digwydd pan ddaw gwyliau'r ddyled i ben. Cadarnhaodd RH ei fod yn trafod yn gyson â chyrrff defnyddwyr eraill a'r prif ddarparwyr cyfathrebiadau ar y mater hwn a materion eraill. • Comisiynodd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ymchwil ansoddol a meintiol annibynnol i sgamiau, a fydd yn cael ei chyhoeddi dros y misoedd nesaf. Roedd hyn mewn ymateb i bryderon am effaith sgamiau a gweithgarwch twyllodrus ar ddefnyddwyr ac er mwyn gwella diogelwch defnyddwyr lle bynnag y bo modd. • Gwaith parhaus yr Hybiau Defnyddwyr Cyfathrebiadau. Gwahoddir aelodau PCC i ddod i gyfarfod nesaf Cymru ar 24 Mehefin. Bydd dolen yn cael ei rhannu. • Pryder y Panel ynghylch effaith diffodd PSTN ar ddefnyddwyr, sy'n eitem bwysig ar ei agenda. Cytunodd cydweithwyr Ofcom a'r Panel i drafod sut mae PCC yn cyfrannu at y maes gwaith hwn. 	<p>FL</p> <p>RH/PT</p>
<p>Covid-19: Effaith ar ddarlledu a chynhyrchu a'i effeithiau ar y Sector Telegyfathrebiadau</p> <p>22. Rhoddodd cydweithwyr Ofcom ddiweddariad llafar ar y sefyllfa bresennol. Darparwyd crynodeb manwl o sut roedd darllledwyr a rhwydweithiau wedi addasu i'r sefyllfa. Dywedodd cydweithwyr fod darlledu fel petai'n dangos rhai arwyddion o adferiad, er bod pob rhan o'r sector yn derbyn y bydd llawer o heriau yn y dyfodol agos. Mae'r darparwyr gwasanaethau rhyngwryd wedi cydweithredu i leihau traffig trwm, fel rhyddhau gemau newydd, i adegau penodol o'r dydd/nos. Gwelodd darparwyr gwasanaethau symudol gynnydd cychwynnol mewn traffig llais, ond ar y cyfan, mae rhwydweithiau wedi ymdopi'n dda.</p>	<p>HW</p>

<p>Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr – y diweddaraf</p> <p>23. Roedd cydweithwyr wedi dosbarthu papur diweddarau cyn y cyfarfod. Amlinellodd y tîm yr amserlen ddiwygiedig oherwydd Covid-19. Mae'r cyhoeddi bellach wedi'i drefnu ar gyfer diwedd y flwyddyn a bydd y Datganiad yn cael ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2021.</p> <p>24. Trafodwyd y sefyllfa bresennol ac awgrymodd un o'r aelodau y dylid gofyn am farn cynhyrchwyr annibynnol a'r holl aelodau er mwyn rhoi adborth ar unrhyw sylwadau eraill a gafwyd gan randdeiliaid. Roedd y prif bryderon yn ymwneud â pha mor gywir mae newyddion y BBC wedi adrodd ar Covid-19 a sut mae Cymru a gwledydd eraill y DU wedi cael eu camgynrychioli ym mwletinau newyddion y DU. Mae rhwystredigaeth amlwg yn datblygu. Cytunodd y Pwyllgor i gwrdd y tu allan i'r prif gyfarfod i drafod hyn ymhellach a chynnwys trafodaeth ar Adroddiad Blynyddol y BBC mewn perthynas â'r meysydd hyn. Bydd y Pwyllgor wedyn yn mynegi ei bryderon yn ffurfiol. Cytunodd Ofcom Cymru i hwyluso cyfarfod yn ystod yr wythnosau nesaf.</p>	<p>PCC</p> <p>HW/ EW</p>
<p>Unrhyw faterion eraill ac eitemau ar gyfer agendâu'r dyfodol</p> <p>25. Cytunwyd y byddai cyfarfod byrrach yn cael ei gynnal cyn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer mis Medi. Yn ogystal â chyfarfodydd yr is-grwpiau, dylid trefnu cyfarfodydd dal i fyny yn y cyfamser (dim mwy na 2 awr).</p> <p>26. Cyfarfodydd/trafodaethau yn y dyfodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trafodaeth gyda'r Sefydliad Materion Cymreig ynghylch yr Archwiliad Cyfryngau • Trafodaeth newyddion/darlledu • Cynllun Blynyddol y BBC • Cyfarfod dal i fyny Cadeiryddion Pwyllgorau Cynghori 	<p>EW</p> <p>RMcE HW/ Ofcom Cymru</p>
<p>Eitemau er gwybodaeth – Nodwyd</p>	